***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 837 (Cy.99)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *26 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *10 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan adran 33 ac 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**):

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 10 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio'r Gorchymyn**

**2.** Ym mharagraff (b) o erthygl 2 o Orchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) 1996(**2**) yn lle "£24,000" rhowch "£30,000".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Rhodri Morgan*
26 Mawrth 2002 — Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1996 p. 53; mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler erthygl 2 o ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**2**) O.S. 1996/2888, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/1275 (Cy. 74).
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 2 o Orchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) 1996, sy'n rhagnodi uchafswm y grant gorfodol ar gyfer cyfleusterau i'r anabl y gall fod yn ofynnol i awdurdod tai lleol dalu o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Mae'r uchafswm yn cael ei godi o £24,000 i £30,000 ar gyfer adeiladau neu anheddau yng Nghymru.